# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 25 Mehefin 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth am hawliau ac anghenion arbennig plant ag anableddau? (WAQ54386)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae ein polisïau yn cefnogi hawliau pob plentyn a pherson ifanc ac yn ceisio eu helpu i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag arfer yr hawliau hynny. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod anghenion plant anabl yn arwain ein gwaith datblygu polisi.

Sefydlais Grŵp Gorchwyl a oedd yn cynnwys Uwch Swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a chynrychiolwyr yr ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru. Rwy'n cwrdd â'r grŵp ymgyrchu yn rheolaidd ac rwyf wedi cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn rheolaidd ar ffurf papurau cabinet a datganiadau ysgrifenedig.

Lansiwyd "Ar y Trywydd Iawn: Agenda Bolisi i Weddnewid Bywydau Plant a Phobl Ifanc Anabl" ar 3 Rhagfyr 2008. Dyma'r tro cyntaf i ddogfen gynhwysfawr gael ei llunio sy'n amlinellu polisïau allweddol o bob rhan o Lywodraeth y Cynulliad. Dosbarthwyd copïau yn eang ledled Cymru.

Mae'r Tîm Cyfathrebu Gweinidogol wedi paratoi cynllun cyfathrebu i gynnwys gweithgareddau amrywiol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau i blant a phobl ifanc anabl.

Un o'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yw datblygu deunyddiau codi ymwybyddiaeth y gall ystod eang o ymarferwyr gael gafael arnynt yn hawdd.

Datblygiad pwysig arall yw ymgyrch codi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau i deuluoedd plant a phobl ifanc anabl a gyhoeddwyd gan fy Nghyd-Weinidog Dr Brian Gibbons ar 12fed Mai 2009.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i annog cynnwys plant anabl mewn cymdeithas ac i atal gwahaniaethu a sefydliadoli? (WAQ54387)

**Jane Hutt:** Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn allweddol i atal gwahaniaethu. Bydd yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ymhob un o'r elfennau cydraddoldeb.

Mae cynnwys plant a phobl ifanc yn elfen hanfodol o lawer o'n polisïau a'n dogfennau canllaw fel y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant a'r Cyfnod Sylfaen. Rydym yn cydnabod hefyd y gallai plant anabl wynebu rhwystrau ychwanegol. Dyma'r rheswm pam y rhyddhawyd cyllid ychwanegol drwy Cymorth ar gyfer cyfleusterau chwarae i blant anabl, er enghraifft, ac y cyhoeddwyd pecyn canllawiau o'r enw 'Cydraddoldeb i Bobl Anabl mewn Ysgolion'.

Rydym am sicrhau y caiff barn plant anabl ei pharchu a'i chlywed. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant yn cynnwys camau gweithredu allweddol i'r perwyl hwn.

Bydd y Mesur Addysg (Cymru) Arfaethedig yn rhoi'r hawl i blant am y tro cyntaf apelio ynghylch eu hanghenion addysgol arbennig a/neu'r hawl i gyflwyno hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd gerbron Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Ffactor allweddol wrth atal plant anabl rhag cael eu rhoi mewn sefydliadau gofal yw sicrhau y rhoddir y cymorth angenrheidiol i deuluoedd. Mae datblygu Rhaglen Cymorth Cynnar, cymorth i blant anabl a'u teuluoedd am seibiannau byr a chynlluniau peilot mewn pum ardal o Gymru sy'n darparu "gweithwyr pontio allweddol" yn enghreifftiau o sut rydym yn ceisio rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i deuluoedd plant anabl i alluogi'r plant i fyw gyda'u teuluoedd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa arian sydd wedi cael ei roi o'r neilltu i helpu plant a phobl ifanc anabl yng Nghymru? (WAQ54388)

**Jane Hutt:** Ymhlith y mentrau cyllido pwysig mae:

- £225,000 i osod toiledau i'r anabl ledled Cymru.
- £2.2 miliwn i ddatblygu Rhaglen Cymorth Cynnar i blant anabl o dan bump oed a'u teuluoedd.
- £1 miliwn wedi'i gynnwys yng nghyllideb Cymorth ar gyfer 2008 -09 ymlaen i wella mynediad a datblygu gwasanaethau chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc anabl.
- £500,000 y flwyddyn am dair blynedd ar gyfer gweithwyr pontio allweddol i helpu pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig. Roedd ein cais i gynllun grant Cronfa Gymdeithasol Ewrop 'Reaching the Heights' yn llwyddiannus ac mae'r cyfanswm wedi dyblu i £3m bellach.
- Ar ôl lansio'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig, rhyddhawyd£1.8m ar gyfer 2008-09 i helpu awdurdodau lleol i fapio'r gwasanaethau sydd ar gael ymhob sector ac i nodi bylchau mewn gwasanaethau a sut y gellir mynd i'r afael â hwy. Roedd hyn yn ychwanegol at y swm rheolaidd o £1.7 miliwn a roddwyd i awdurdodau lleol o 2007-08 yn benodol i ddatblygu gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant ag awtistiaeth.
- Bydd £500,000 ar gael dros y ddwy flynedd nesaf i godi ymwybyddiaeth o'r budd-daliadau y mae gan rieni a gofalwyr plant ag anableddau hawl iddynt.
- Bydd £250,000 ar gael am dair blynedd i helpu awdurdodau lleol i ddarparu cyfleoedd chwarae i blant anabl. Yn ogystal, disgwylir i awdurdodau lleol neilltuo isafswm o £250,000 o adnoddau a ddynodwyd eisoes at y diben hwn i greu cronfa o £500,000.
- Bydd £1.5m ar gael hefyd i ariannu gwasanaethau seibiant byr i blant ag anableddau cymhleth.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun RHAGORI? (WAQ54389)

**Jane Hutt:** Yn wreiddiol roedd Rhagori yn rhaglen ddwy flynedd oedd yn rhoi £16 miliwn y flwyddyn i gefnogi'r agenda cyfiawnder cymdeithasol mewn addysg. Y nod oedd mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a thangyflawniad mewn addysg. Yn 2008-2009, rhyddhawyd £16.25 miliwn i alluogi rhaglen Rhagori i barhau am flwyddyn arall.

Ar y cychwyn, roedd ysgolion yn gymwys i gael grant Rhagori os oedd ganddynt 50 neu fwy o ddisgyblion o oedran ysgol statudol, yr oedd o leiaf 20% ohonynt yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. O gofio natur y rhaglen, nid yw'r rhestr o ysgolion sy'n cymryd rhan wedi newid, ac eithrio mewn achosion o gau neu gyfuno ysgolion.

Ym mhob blwyddyn rhoddwyd £14.5 miliwn i ysgolion cymwys. At hynny, rhoddwyd £1 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal.

Mae £6.59 miliwn arall ar gael ar gyfer Rhagori yn 2009-2010 ac £1.03 miliwn yn 2010-2011.

Mewn ymgynghoriad â chonsortia lleol sy'n cynnwys AALlau, CLlLC ac CCAC, mae fy swyddogion wedi llunio strategaeth ar ddefnyddio cyllid pedair blynedd Rhagori er mwyn sicrhau ei fod yn datblygu ac yn atgyfnerthu enillion y tair blynedd blaenorol o grantiau Rhagori sylweddol.

Yn y gwanwyn, datblygodd pob un o'r pedwar consortia rhanbarthol o awdurdodau lleol eu cynlluniau eu hunain ar gyfer gweithredu'r strategaeth genedlaethol yn y cyd-destun lleol. Mae pob consortiwm wedi cytuno ar becyn o weithgareddau cydweithredol a fydd yn llunio'r Rhaglen Rhagori ranbarthol ar gyfer 2009-2010. Ar hyn o bryd mae'r consortia yn gweithio gyda'u hawdurdodau lleol a'r ysgolion i bennu cynlluniau gweithredu a manylion cyllido terfynol ar gyfer y mentrau hyn.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A yw'r grant RHAGORI erioed wedi cael ei ddefnyddio i gynorthwyo ysgolion sydd wedi cael eu rhoi dan 'fesurau arbennig' ac, os felly, sut y cafodd ei weithredu? (WAQ54391)

**Jane Hutt:** Mae arian Rhagori yn unigryw gan ei fod yn canolbwyntio ar y rhwystrau y mae tlodi yn eu cyflwyno i ddysgu effeithiol, yn hytrach nag effeithiolrwydd ysgolion yn gyffredinol. Yn ystod tair blynedd cyntaf y rhaglen, pennwyd hawl unrhyw ysgol i gyllid gan fformiwla yn unig.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Faint o arian sydd wedi cael ei neilltuo, hyd yn hyn, i golegau Addysg Bellach yng Nghymru o ganlyniad i'r cynllun ProAct, fesul pob coleg unigol? (WAQ54394)

**Jane Hutt:** Rydym wedi dyrannu'r cyllid a nodir isod i golegau AB yng Nghymru:

| | |
|---|---:|
| Coleg Sir Gâr | £1,237,989 |
| Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | £18,535 |
| Coleg Abertawe | £2,790 |
| Coleg Busnes Abertawe | £350 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | £148,030 |
| Prifysgol Bangor | £6,450 |
| Ysgol Fusnes Caerdydd | £19,262 |
| Coleg Morganwg | £5,376 |
| Prifysgol Morgannwg | £14,756 |
| UWIC | £600 |
| Coleg Gwent | £12,890 |
| Coleg Powys | £501 |
| Prifysgol Glyndwr | £2,300 |
| Coleg Glannau Dyfrdwy | £4,065 |
| Coleg Sir Benfro | £109,212 |
| Coleg Llandrillo | £81,685 |
| | **£1,664,791** |

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Beth yw cyfanswm y gost hyd yn hyn o baratoi ar gyfer y ffliw moch yng Nghymru? (WAQ54395)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Ar hyn o bryd, nid oes cyllideb ar wahân wedi'i llunio i baratoi ar gyfer Ffliw Moch.